

Derbyn a Blwyddyn 1

Mrs Nina Williams

Staff

Nina Williams
Non Roberts
Llinos Angharad

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ôl darllen gyda'ch plentyn. Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael "Llyfr Sŵn" i fynd gartref hefyd.

Addysg Gorfforol

Mae ein gwersi Addysg Gorfforol ddwy waith yr wythnos.

Dydd Mawrth - Tu Allan: bydd eich plentyn angen dillad cynnes ac esgidiau addas.

Dydd Mercher — Tu Mewn: bydd eich plentyn angen trowsus byr a chrys -t.

Thema

Gwlad y Rwla — Cyfres o straeon gan Angharad Tomos.

Bydd ein gweithgareddau yn deillio o'r straeon yma ac yn cynnwys:

- dysgu am y coed sydd o'n cwmpas
- dysgu am y tymhorau
- ysgrifennu am y cymeriadau
- chwarae rôl o'r stori
- gwaith mapio syml
- gwaith creadigol yn cynnwys argraffu gyda dail yr Hydref

Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gydfynd â'r thema, e.e. creu pypedau o gymeriadau Gwlad y Rwla, ymchwilio i suddo ac arnofio yn y cafn dŵr, creu llun i gydfynd a un o'r straeon gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol, chwarae rôl a modelu gyda thoes.